# Esbonio termau traethodau

**Er mwyn gallu ysgrifennu traethawd da, rhaid i chi fod yn deall y cwestiwn yn y lle cyntaf. Rhaid i chi ddeall beth yn union mae'n rhaid i chi ei wneud. Drwy edrych ar y cwestiwn yn fanwl, byddwch chi'n gallu adnabod y testun dan sylw a'r geiriau pwysig sy'n cynnig cyfarwyddiadau i chi ynglŷn ag ateb y cwestiwn. Deall ystyr y geiriau pwysig yma yw'r cam hanfodol cyntaf yn y broses o ysgrifennu'ch traethawd.**

Mae'r rhestr termau yma'n diffinio rhai o'r geiriau mwyaf cyffredin y gallwch chi ddod ar eu traws mewn cwestiynau traethodau. Cofiwch mai bwriad y diffiniadau yma yw rhoi arweiniad cyffredinol i chi, nid arweiniad manwl Defnyddiwch y rhestr termau yma ar y cyd â'r canllaw astudio: Ysgrifennu traethodau.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Adolygu / Adolygwch** | Mae'r gair 'adolygu' yn golygu ymchwilio'n drwyadl i bwnc. Wrth wneud y fath 'adolygiad', dylech chi fod yn feirniadol a pheidio â disgrifio'r pwnc yn unig. |
| **Amlinellu / Amlinellwch** | Os oes gofyn i chi 'amlinellu' rhywbeth, disgrifiwch y prif bwyntiau gan roi pwyslais ar y strwythurau cyffredinol a'r berthynas rhyngddyn nhw. Peidiwch â manylu gormod. |
| **Archwilio / Archwiliwch** | Mae'r term 'archwilio' yn golygu edrych ar rywbeth yn fanwl iawn a disgrifio'r prif ffeithiau a'r agweddau pwysig ar bwnc. Dylech chi bwyso a mesur yn feirniadol a cheisio esbonio pam mai'r ffeithiau a'r agweddau hynny yw'r rhai pwysicaf yn eich barn chi. Esboniwch hefyd y gwahanol ffyrdd o'u deall a'u dehongli. Wrth archwilio, mae gofyn i chi gwestiynu a meddwl am wahanol safbwyntiau. Lle bynnag y gallwch chi, dewch â safbwyntiau gwahanol at ei gilydd drwy gyflwyno llinell derfynol i'ch dadl. |
| **Asesu / Aseswch** | Wrth 'asesu', mae gofyn i chi bwyso a mesur i ba raddau mae rhywbeth yn wir. Dylech chi geisio darbwyllo'ch darllenwr bod eich dadl yn gywir drwy ddyfynnu gwaith ymchwil sy'n berthnasol. Ond cofiwch dynnu sylw hefyd at unrhyw wendidau yn y gwaith, ac at ddadleuon sy'n rhoi safbwynt arall. Dylech chi gloi eich traethawd drwy nodi'n glir i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiad gwreiddiol. |
| **Crynhoi / Crynhowch** | Mae 'crynhoi' rhywbeth yn golygu ysgrifennu fersiwn gryno ohono, gan roi sylw i'r prif ffeithiau a pheidio â chynnwys unrhyw wybodaeth |

| | |
|---|---|
| | sy’n llai pwysig. Wrth ateb y math yma o gwestiwn, byddai enghreifftiau byr neu gyffredinol yn ddigon. |
| **Cyferbynnu / Cyferbynnwch** | Mae’r term ‘cyferbynnu’ yn debyg i’r term ‘cymharu’ ond mae’n golygu canolbwyntio ar y pethau sy’n gwneud dau neu fwy o bethau’n wahanol, neu’r hyn sy’n eu gosod ar wahân. Nodwch unrhyw wahaniaethau mawr. |
| **Cyfiawnhau / Cyfiawnhewch** | Mae cyfiawnhau rhywbeth yn golygu cyflwyno tystiolaeth i ategu neu i danlinellu eich syniadau a’ch safbwyntiau. Er mwyn cyflwyno dadl gytbwys, rhowch sylw i safbwyntiau sy’n mynd yn groes i’ch rhai chi cyn cyfleu eich casgliad. |
| **Cymharu / Cymharwch** | Wrth gymharu dau beth neu fwy, disgrifiwch y nodweddion sy'n eu gwneud yn debyg a’r rhai sy’n eu gwneud yn wahanol. Dywedwch a yw unrhyw rai o’r nodweddion yma’n bwysicach na’r lleill? Bydd amryw o gwestiynau traethodau’n gofyn i chi ‘gymharu’ a ‘chyferbynnu’ rhywbeth. |
| **Dadansoddi / Dadansoddwch** | Mae ‘dadansoddi’ rhywbeth yn golygu ei rannu’n ddarnau. Edrychwch ar bob rhan yn fanwl gan ddisgrifio’r dadleuon a’r dystiolaeth o blaid ac yn erbyn pob un. Rhowch sylw hefyd i’r berthynas rhwng y gwahanol rannau. |
| **Dangos / Dangoswch sut mae** | Mae nifer o gwestiynau traethodau’n gofyn i chi ‘ddangos sut mae’ rhywbeth wedi cael ei achosi. Mae gofyn i chi gyflwyno mewn trefn resymegol y camau yn y broses a disgrifio’r ffactorau sydd wedi cyfuno i’w achosi. Cyfeiriwch at y dystiolaeth berthnasol. |
| **Dehongli / Dehonglwch** | Mae’r term ‘dehongli’ yn gyfle i chi ddangos eich bod yn deall cwestiwn neu bwnc. Efallai fod gofyn i chi ddehongli’r ffordd mae awdur neilltuol wedi defnyddio terminoleg arbennig. Neu efallai fod disgwyl i chi ddehongli darganfyddiadau gwaith ymchwil. Wrth ddehongli darganfyddiadau gwaith ymchwil, tynnwch sylw at unrhyw batrymau arwyddocaol neu’r berthynas rhwng dau beth sydd wedi achosi rhywbeth. |
| **Diffinio / Diffiniwch** | Mae’r term ‘diffinio’ yn golygu esbonio ystyr rhywbeth yn fanwl gywir. Tynnwch sylw at unrhyw broblemau sy’n codi yn sgil y diffiniad ac at y gwahanol ffyrdd o’i ddehongli. |

| | |
|---|---|
| **Disgrifio / Disgrifiwch** | Mae cwestiwn sy'n gofyn i chi ddisgrifio rhywbeth yn disgwyl i chi ddweud sut a pham mae rhywbeth yn digwydd. Efallai fod gofyn i chi roi disgrifiad manwl ohono hefyd. |
| **Egluro / Eglurwch** | Mater yw hwn o wneud rhywbeth yn gliriach, a'i wneud yn symlach hefyd weithiau. Fe allai olygu, er enghraifft, esbonio proses neu theori gymhleth mewn geiriau symlach, neu esbonio'r berthynas rhwng dau beth gwahanol. |
| **Esbonio / Esboniwch** | Term arall yw 'esbonio' sy'n gofyn i chi wneud pwnc yn gliriach drwy ddisgrifio'n fanwl sut mae'n digwydd, a pham. Efallai fod gofyn i chi ddisgrifio beth mae defnyddio'r term mewn cyd-destun arbennig yn ei olygu. Neu esbonio sut mae rhywbeth yn gweithio. Wrth ysgrifennu esboniad, defnyddiwch iaith glir i ddisgrifio gweithdrefn, digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau sydd fel arall yn gymhleth. Diffiniwch y prif dermau os oes angen, a dyfynnwch o waith ymchwil perthnasol i gadarnhau eich esboniadau. Efallai fod gofyn hefyd i chi gynnwys enghreifftiau ac ystadegau i atgyfnerthu'ch esboniadau. |
| **Gwerthuso / Gwerthuswch (yn feirniadol)** | Meddyliwch am y term 'gwerthuso' fel mater o bwyso a mesur rhywbeth. Bydd llawer o gwestiynau traethodau'n gofyn i chi 'werthuso'n feirniadol' hefyd. Mae gwneud hyn yn golygu esbonio i ba raddau mae gosodiad neu ddarganfyddiad mewn darn o waith ymchwil yn wir, ac esbonio i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad neu'r darganfyddiad. Edrychwch ar amryw o wahanol ffynonellau er mwyn casglu tystiolaeth sy'n ategu dadl, a thystiolaeth sy'n gwrth-ddweud y ddadl. Ffurfiwch eich casgliad terfynol eich hun, gan seilio'ch penderfyniad ar y ffactorau rydych chi'n eu gweld fel y rhai pwysicaf. Cofiwch gyfiawnhau eich dewis. |
| **I ba raddau...** | Mae'r geiriau yma'n gofyn am yr un math o ateb â'r cwestiwn 'Pa mor bell...'. Wrth gyflwyno'ch ateb i gwestiwn o'r fath, mae gofyn eich bod yn asesu'r dystiolaeth yn drwyadl. Rhowch sylw i esboniadau eraill os oes rhai ar gael. |
| **Manylu / Manylwch** | Mae'r term 'manylu' yn gofyn i chi fod yn fwy manwl a chynnig mwy o wybodaeth am rywbeth. |
| **Nodi / Nodwch** | Mae gwneud hyn yn golygu penderfynu ar y pwyntiau allweddol i'w trin a'u trafod, a gallu rhestru goblygiadau pob un. |

| | |
|---|---|
| **Rhowch sylwadau ar...** | Mae gwneud hyn yn golygu didoli prif bwyntiau'r pwnc dan sylw, a chyfleu eich barn. Bydd disgwyl i chi atgyfnerthu eich safbwynt drwy ddefnyddio rhesymeg a chyfeirio at dystiolaeth berthnasol. Cofiwch gyfeirio at unrhyw ddogfennau rydych wedi'u darllen y tu hwnt i'r pwnc dan sylw. |
| **Trafod / Trafodwch** | Mater yw hwn o drafod yn ysgrifenedig. Byddwch chi'n defnyddio'ch gallu i resymu ac yn cynnig tystiolaeth rydych chi wedi'i dewis yn ofalus fel sail i'r achos o blaid ac yn erbyn y ddadl dan sylw. Efallai hefyd y byddwch chi'n tynnu sylw at fanteision ac anfanteision rhyw gyd-destun penodol. Cofiwch ffurfio casgliad ar y diwedd. |
| **Ystyried / Ystyriwch** | Os bydd cwestiwn traethawd yn gofyn i chi 'ystyried', bydd disgwyl i chi roi eich barn ar rywbeth. Rhowch dystiolaeth addas o ffynonellau allanol neu o'ch profiad personol fel sail i'ch sylwadau. Cynhwyswch unrhyw safbwyntiau sy'n groes i'ch safbwynt eich hun, a disgrifiwch y berthynas rhyngddyn nhw â'ch barn wreiddiol eich hun. |

www.businessballs.com

BY NC SA

Awdur gwreiddiol: Prifysgol Caerlyr

Cyrchwyd oddi: http://studyskills.bangor.ac.uk/index.php.cy ar 31/1/16

Mae'r fersiwn Saesneg ar gael oddi: http://studyskills.bangor.ac.uk/index.php.en